

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 2 Rhif 5

Yn rhad ac am ddim

Awst 2021



Argae Graig Goch, Cwm Elan

Cronfeydd Cwm Elan

gan Rob Evans

Am ble dach chi'n feddwl pan mae rhywun yn sôn am ardal y llynnoedd? Ia, The Lake District ynte. Mae pobl yn heidio yna pob blwyddyn er mwyn cerdded, tynnu lluniau a chael hwyl. Ond go brin fydddech chi'n gallu cael taith gerdded heddychlon efo gymaint o bobl o gwmpas. Wel cadwch hyn dan eich hetiau ond mae gynnon ni ein 'ardal y llynnoedd' ein hunain ac mae'n llawer tawelach os dach chi am gerdded neu seiclo. Dach chi erioed wedi bod yng Nghwm Elan? Mae'n werth mynd.



Pan o'n i'n byw ger Cleobury Mortimer yn sir Gaerwrangon roeddwn i wrth fy modd yn rhoi'r beic ar gefn y car i seiclo o gwmpas y llynnoedd. Roedd y daith yna yn dipyn o bellter ond roedd yn werth bob milltir. Nes ymlaen symudais i fyw yn Llandrindod ac roedd Cwm Elan yn ddigon agos i mi seiclo yna, mynd o gwmpas y llynnoedd i gyd ac wedyn seiclo'n ôl. Nefolaidd!

Cadwyn o gronfeydd wedi cael eu hadeiladu gan Ddinas Birmingham ydyn nhw ond erbyn hyn maen nhw'n perthyn i Ddŵr Cymru. Mae pedwar argae yn gyfan gwbl ac, os dach chi'n gwybod ble i edrych mae rhan o un arall ond ar ôl dechrau'r sylfaeni mi wnaeth y gwaith ddod i ben. Mae'r barcud coch i'w weld ym mhob man yn troi'n osgeiddig yn yr awyr.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Os dach chi'n ddewr allech chi fynd ar yr hen ffordd i Gwmystwyth ond os ydy hi'n brysur ac nad ydych yn hapus i facio'r car

ewch yn ôl ar amser tawelach. Byddech chi'n gyrru wrth ochr afon fyrlymog heb adeilad i'w weld yn unlle am sbel cyn cyrraedd Cwmystwyth. Yma byddech chi'n gweld olion y gwaith plwm ond mae'r lle yn llawer mwy distaw erbyn hyn.

Ewch i gronfa Glaerwen ac mae llwybr garw yn mynd wrth ochr y dŵr am saith milltir i'r pen arall. Dw i wedi bod ychydig o weithiau ar feic mynydd ond, os dach chi eisiau gwneud yr un peth gaf i awgrymu bod chi'n defnyddio digon o badin. Cofiwch rŵan neu byddech yn cerdded fel John Wayne am ychydig o ddyddiau!

Mae gymaint o lefydd hardd yng Nghymru – gwnewch yn siŵr bod chi'n gweld nhw!

Stori o'r ardd

gan Susan Gilson



Roeddwn i'n mwynhau fy nghwpanaid o goffi ganol bore pan sylwais o gornel fy llygad, symudiad ar waelod yr ardd. Rhywbeth bach gyda chrwyn llyfn llwyd yn gwthio'i ffordd trwy'r berth. O na, llygoden fawr oedd fy meddwl cyntaf ond diolch byth cefais gymaint o ryddhad a syndod pan welais y clustiau. Cwningen fach iawn ydoedd, mor giwt gyda'i chynffon copog bach wen.

Eisteddais heb symud wrth iddo hopian ar hyd y ffiniau gan arogl pob planhigyn yn ei dro, ei drwyn bach yn plygu a'i glustiau'n union syth ac yn effro. Ymsefydlodd yn y diwedd ar ymyl y lawnt yn cnoi'r glaswellt byr. Fe allwn i fod wedi mynd ar ei ôl gyda rhaw fel gwnaeth Mr McGregor yn y straeon am Peter Rabbit gan Beatrix Potter. Roedd Peter Rabbit yn bwyta'r moron ond roedd y creadur bach hwn yn ddiniwed ac yn hynod ddiddorol i'w wyllo.

Mae yna lawer o gwingod i'w gweld ar y clogwyni ond efallai bod yr un bach hwn wedi penderfynu crwydro ymhellach i ffwrdd efallai i

ddianc oddi wrth ei frodyr a'i chwiorydd niferus i gael ychydig o heddwch a thawelwch a lawnt i gyd iddo'i hun. Yn wir maen nhw'n ddweud bod y glaswellt bob amser yn wyrddach yr ochr arall! Nawr roedd y gwningen fach yn mwynhau ei ginio neu 'brunch' ac yn amlwg yn teimlo'n ddiogel ac eithaf hapus. Arhosodd yno yn yr un fan am 5 i 10 munud.

Es i ateb y ffon a pan des i yn ôl roedd y gwningen fach wedi diflannu mor gyflym ag yr ymddangosodd. Efallai ei fod yn teimlo'n euog gan sylweddoli y gallai ei fam fod yn poeni amdano neu efallai ei fod newydd gael digon i'w fwyta. Dwi'n gobeithio daw yn ôl am ei de!

Y daith gyntaf

gan Cerys Paschali



Pan laniodd yr awyren ar y tarmac yn Larnaca, teimlais i synnwyr enfawr o ryddhad ... ro'n ni wedi llwyddo yn ein taith gyntaf ar ôl y pan demig. Mae pethau'n dechrau ailagor yn Dubai. Mae cwmni hedfan Emirates yn disgwyl mwy na 450,000 o deithwyr yn ystod misoedd yr haf, ond mae llawer cylch i neidio drwyddo cyn y caniateir i unrhyw un fynd ar awyren. Mae mwy na 15 miliwn o frechlynnau wedi cael eu rhoi erbyn hyn yn yr Emiraethau ac roedd rhaid i ni gyd lawr lwytho ap i ddangos ein statws brechiad, hyd yn oed i fynd o Dubai i Abu Dhabi. Os hoffech chi deithio'n bellach, bydd angen cwblhau Ffurflen Lleoli Teithwyr i ddweud lle yn union byddech chi'n aros yn ystod eich ymweliad. Atodir hefyd dogfen brawf PCR wedi cael ei wneud o fewn saith deg dwy awr i'r hediad. Ac, wrth gwrs, bydd rhaid gwisgo mwgwd yn yr awyren, ond dyn ni'n gwneud hynny ym mhobman y tu fas ein tai beth bynnag. A dyna ni o'r diwedd yn barod i fynd!



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Roedd Cyprus yn aros amdanon ni – mae'r ynys yn croesawu twristiaid o bell ac agos gyda breichiau agored. Roedd rheolau Cyprus o wisgo masgiau yn fwy tebyg i ddull Prydain – roedd yn opsiynol yn yr awyr agored cyhyd â bod pawb yn cadw at bellter cymdeithasol – felly roedden ni'n croesawu'r gostyngiad yn y rheolau. Mae'r nifer o achosion wedi bod yn isel iawn yn Cyprus ac maen nhw'n awyddus i gadw pethau fel y mae. Ar gyfer pobl heb gael eu dau frechiad eto, mae profion gwib ar gael yn rhad ac am ddim mewn eglwysi ac ysgolion lleol ac anfonir y canlyniadau at eich ffonau symudol mewn pedair awr.



Wennoliaid ar Ynys Cyprus

Rhyfeddon ni at gymaint o fywyd gwyllt sydd i'w weld yn Cyprus ac yn ffynnu oherwydd y diffyg twristiaid yn ddiweddar. Syndod annisgwyl oedd faint o wenoliaid oedd yn eistedd ar y gwifrau telegraff a faint o adar y to oedd yn ymlwybro o amgylch y traethau gwag i chwilio am unrhyw bicnic dros ben. Pan aeth fy ngŵr â fy meibion i ddeifio, daethon nhw ar draws glamp o grwban môr (cefn lledr, fel mae'n digwydd) yn bwydo ar laswellt y môr heb ofal yn y byd. Prin



Crwban dan y Môr

oedd gweld crwbanod cyn y firws; roedd hon yn benodol yn gwneud y gorau o'r llonyddwch heb sgïau jet neu gychod pleser yn pasio uwch ei phen. Erbyn meddwl amdano, cyn belled ag y mae byd natur yn y cwestiwn, doedd y saib angenrheidiol ddim yn hollol ddrwg i'r blaned.

Pasiodd ein hwythnos yn glou. Roedd yn teimlo fel bod ni ddim ond wedi cyrraedd a dyma ni'n pacio ac yn ail-wneud profion PCR ar gyfer y daith yn ôl i Dubai: un prawf cyn i ni adael a phrawf arall wrth i ni gyrraedd. Cawson ni'r canlyniadau wrth i ni gysgu yn ein gwelyau'r un nos a ro'n ni'n ôl yn y swyddfa neu'r ysgol y bore canlynol. Gobeithio fy mod i wedi rhoi tawelwch meddwl i chi os dych chi'n ysu i deithio dramor pan ganiateir. Peidiwch â phoeni'n ormodol - roedd y cyfan yn ddiogel iawn ac roedd yn teimlo fel cam pwysig tuag at gael ein byd yn ôl ar y trywydd iawn unwaith eto.

Mae'n bosibl trechu canser

gan Michael Williams



Ar ddiwedd mis Mai bydd yn 19eg pen-blwydd ers marwolaeth fy ngwraig, Anne. Cafodd hi lawdriniaeth yn 1997 i dynnu tiwmor o'i cholon, ond yn anffodus symudodd y canser wedyn trwy fetastasis i'r afu. Cafodd hi gemotherapi am sawl mis ond methodd y meddygon ag atal y twf. Gwnaethon ni'r gorau o fywyd am bum mlynedd, ond ar ôl i Anne farw roeddwn yn drist iawn. Roeddwn wedi colli fy nghariad ar ôl 42 blynedd o briodas hapus iawn.

Pum mis ar ôl ei marwolaeth cefais ddiagnosis o ganser y brostad. Roedd fy mhlant yn ofni y gallent golli rhiant arall. Ond roeddwn yn benderfynol o ymladd y canser. Ar ôl darllen am yr opsiynau gwahanol i fynd i'r afael â chanser, penderfynais ddewis radiotherapi. Oherwydd bod offer radiotherapi gwell ar gael mewn ysbyty ym Mryste nag yn Abertawe, fe drefnais fynd yno am y driniaeth. Roedd y radiotherapi yn cynnwys 35 pelydriad dros saith wythnos, ac yn garedig gadawodd fy mab i mi aros yn ei fflat ym Mryste tra cefais y driniaeth.

Ar ôl darllen gallai bio-atborth helpu, penderfynais wneud hynny. Ym mhob triniaeth roeddwn yn gorwedd yn yr offer radiotherapi, a chafais ddogyn byr o belydriad o bedwar cyfeiriad gwahanol yn eu tro. Bob tro roeddwn i'n delweddu celloedd canser yn fy meddwl yn crebachu ac yn diflannu. Ar y cychwyn penderfynais ysgrifennu cyfrif o fywyd fy niweddar wraig: "O enedigaeth i briodas". Mae'r

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

llun yn dangos fi yn gweithio ar y cyfrifiadur yn fflat fy mab. Roedd hi'n dasg emosiynol iawn ac fe daflais lawer o ddagrau.




Michael ar y Cyfrifiadur

Yn ystod y flwyddyn ar ôl y driniaeth collais ychydig o waed. Ond, i dorri stori hir yn fyr roedd y driniaeth yn llwyddiannus. Dw i'n dal yma! Moeswers fy stori yw: gall agwedd gadarnhaol helpu i arwain at ganlyniad da.

Felly byddwch yn gadarnhaol yn eich bywyd!

Y Cymry ac Awstralia

gan Martin Jones



Ynghynt yn Y Wennol, rydw i wedi ysgrifennu am y perthynas rhwng y Cymry a Llundain. Ond nid yn unig ym Mhrydain mae'r Cymry wedi gwneud argraff, ac yn y darn hwn af i â chi i ochr arall y byd i weld sut mae'r Cymry wedi gadael eu hól yn Awstralia.



Cyrhaeddodd (pedwar dyn a dwy ferch), yr ymwelwyr cyntaf o Gymru, Awstralia ym 1788, ond doedden nhw ddim wedi teithio o'u gwirfodd

- roedden nhw ymhlith y carcharorion cyntaf i gael eu halltudio yno. Ond erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn sgil darganfod copr yn Ne Awstralia ac, yn enwedig, aur yn Victoria, roedd Awstralia wedi dod yn brif daith i'r rhai uchelgeisiol a gobeithiol, gan gynnwys nifer arwyddocaol o Gymry.

Efallai cafodd rhai eu hysbrydoli gan Zephaniah Williams. Un o arweinwyr y Siartwyr oedd Zephaniah, ac ar ôl wrthdystiad y Siartwyr yng Nghasnewydd droi i fod yn frwydr rhwng y gwrthdystwyr a'r milwyr, cafodd ei alltudio i Awstralia. Ond ar ôl ei ryddhad, daeth e o hyd i lo yn Tasmania a bu farw yn ddyn cyfoethog.

Cafodd New South Wales ei enw gan Captain James Cook, a oedd yn meddwl bod y tir yn edrych fel de Cymru, a sefydlodd Prydain ei gwladfa gyntaf yn Awstralia yno ym 1788. Cafodd pump mwy o wladfeydd ar wahân eu sefydlu, ond yn y 1890's, cafodd cyfansoddiad ei ddrafftio er mwyn dod â'r gwladfeydd gyda'i gilydd mewn ffederasiwn. Daeth hwn i rym ar 1af o Ionawr, 1901. Prif awdur y cyfansoddiad oedd Samuel Griffith a gafodd ei eni ym Merthyr ym 1845. Er nad oedd wedi treulio llawer o amser yng Nghymru, roedd e wastad yn ei gyfrif ei hun yn Gymro. Yn ystod ei yrfa, daeth e yn Brif Weinidog Queensland ac yn Brif Ustus cyntaf Awstralia.

Ac yn fuan, roedd Cymro yn Brif Weinidog Awstralia pan gafodd William Morris Hughes (adwaenid fel Billy) ei benodi ym 1915. Ganwyd Billy yn Llundain ym 1862 ond daeth ei rieni ill dau o Gymru. Bu farw ei fam pan oedd e'n ddim ond chwe blwydd oed ac aeth e i ogledd Cymru i gael ei fagu gan berthnasau ei dad. Ymfudodd i Awstralia pan oedd e'n ddau ar hugain mlwydd oed.

Pan ddaeth David Lloyd George yn Brif Weinidog y Deyrnas Unedig ym 1916, arweiniwyd dwy wlad gan siaradwyr Cymraeg ar yr un pryd - rhywbeth sy ddim wedi digwydd eto hyn yn hyn ac efallai na ddigwydda fyth eto!

Yn ôl ei gwefan, y siop adrannol hynaf yn y byd sydd yn dal i farchnata o dan ei henw gwreiddiol ydy David Jones. Erbyn hyn, mae 45 siop yn y gadwyn (gan gynnwys un yn Seland Newydd). Mab ffermwr o Landeilo oedd David Jones. Roedd e wedi gweithio yn y sector

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

adwerthol yng Nghymru a Llundain cyn ymfudo i Awstralia ym 1834 a sefydlu ei siop ei hun yn Sydney ym 1838.

Ac, wrth gwrs, mae llawer o enwau lleoedd Cymreig yn Awstralia, gan gynnwys: Aberdare, Aberglaslyn, Abermain, Anglesea, Bangor, Beaumaris, Carnarvon, Cardiff, Ebbw Vale, Llanarth, Llanelly, Llandilo, Llangothlin, Merthyr, Neath, Swansea, a Welshpool.

Ffermwr-denant yn Nhregaron oedd Joseph Jenkins, ond ym 1868, pan oedd e'n hanner can mlwydd oed, penderfynodd e fynd i Awstralia i ennill ei ffortiwn. Yn hynny o beth, doedd e ddim yn llwyddiannus, ond wrth iddo fe deithio o gwmpas Canolbarth Victoria yn gweithio fel "swagman" (sef gweithiwr crwydrol), cadwodd e gyfres o ddyddiaduron am bum mlynedd ar hugain. Cafodd y dyddiaduron hyn eu cyhoeddi ym 1975 dan y teitl "Diary of a Welsh Swagman," a gan eu bod nhw'n rhoi adroddiad unigryw o



fywyd dyddiol yn nhreftadaeth Awstralia, maen nhw'n cael eu hastudio mewn ysgolion Awstralia. Mae rhai pobl hyd yn oed yn dweud taw Joseph Jenkins ydy'r "jolly swagman" yn "Waltzing Matilda"! Pwy a wŷr - ond y tro nesaf i chi glywed y gân, efallai y byddwch chi'n meddwl am Joseph Jenkins a sut daeth Cymro o Dregaron yn un o'r "swagmen" enwocaf.

Cyn i fi orffen, hoffwn i sôn am gwpl o Awstraliaid cyfoes â thras Gymreig. Rydw i'n siŵr bod pawb yn gwybod i'r cyn Prif Weinidog Awstralia, Julia Gillard, gael ei geni yn nhe Cymru. Ond ydych chi'n gwybod bod mam Kylie Minogue yn dod o Faesteg? Mae'n amlwg nawr o le daeth ei llais!

Wedi anghofio pen-blwydd?

Yn sydyn dach chi'n sylweddoli bod pen-blwydd eich chwaer yn agosáu ac, ar ôl chwilio ym mhob man does dim byd sy'n gwneud y tro. Dach chi mewn panig! Os cardiau Cymraeg dach chi angen beth am fynd yn syth at eu gwefan ardderchog nhw www.cardiaucymraeg.com. Mae cardiau yno ar gyfer bob achlysur ac maen nhw'n anhygoel o gyflym! **Cefnogwch y byd Gymraeg.**



WWW.CARDIAU-CYMRAEG.COM

A wnewch chi basio'r Wennol ymlaen os gwelwch yn dda!

Dw i eisiau cael mwy o bobl i'w ddarllen a mwy o bobl i ysgrifennu erthyglau. Beth amdanoch chi? Byddech chi'n hapus i ysgrifennu rhywbeth? Mae'n hawdd. Meddyliwch fod chi'n siarad efo ffrind ac yn sôn am eich gwyliau neu beth bynnag. Wedyn rhwch hynny ar bapur, bydda i'n gwneud yn siŵr bod popeth yn iawn felly, peidiwch â phoeni!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tudalen y Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Mab Caredig

Mae mam John yn gweithio yn yr ardd. Mae hi'n chwynnu. Mae chwyn yn tyfu'n gyflym.

"Helo Mam" medda John, "dach chi eisiau help?"

"O John, ti'n fab caredig! Dw i eisiau pethau o'r ardd llysiau. Dw i eisiau tatws, moron a ffa a beth am gael hufen a mefus i bwddin?"

"Iawn Mam" medda John "dw i'n mynd i nôl nhw rŵan"

Maen nhw'n mynd i gael cinio blasus dros ben.

Chwynnu - to weed

Chwyn - weeds

Caredig - kind

Dewch i'r Marina!

Beth am ddod efo fi heddiw? Dw i eisiau mynd am dro. Dw i eisiau cael pryd o fwyd. Eistedd tu allan yn yr haul a bwyta.

I ble dan ni'n mynd?

Dach chi wedi bod yn y Marina yn Aberdaugleddau? Mae'n werth mynd yna. Mae llawer o lefydd bwyta.

Dyma ni wedi cyrraedd. Mae'r caffi yma yn edrych yn dda. Eisteddwrth wrth y bwrdd. Beth dach chi eisiau? Iawn, dw i'n mynd i archebu.

Fi sy'n talu!

W, roedd y bwyd yn flasus! Beth am fynd am dro yn yr haul rŵan?

Aberdaugleddau - Milford Haven

Archebu - to order

I hope you find these little stories easy to read because reading is so important to expanding your vocabulary. And language is all about vocabulary isn't it. Obviously!

Mynd ar Wylia?

Dw i'n hoffi mynd ar wyliau. Dw i ddim wedi bod ar wyliau am ddwy flynedd. Dw i eisiau nofio yn y môr cynnes a gorwedd yn yr haul.

Ond i ble? Ffrainc, Portiwgal, Sbaen, Yr Eidal neu Wlad Groeg? Anodd dewis.

Ond beth am Cofid? Mae'n rhaid cael profion cyn mynd. Ac efallai bydd rhaid i mi hunan ynysu pan dw i'n dod yn ôl.

Dw i ddim yn gwybod. Dw i'n ddiogel adref. Bydd cyfle i gael gwyliau blwyddyn nesaf.

Na, dw i'n aros yma yng Nghymru. Dw i'n ddiogel yng Nghymru.

Profion - tests

Hunan ynysu - self isolate

Diogel - safe

Cyfle - chance

Mynd am Goffi

Mae Iestyn yng nghanol y dref ac yn gweld Bethan yn aros am y bws.

"Helo Bethan." medda Iestyn "Os wyt ti'n aros am y bws yn ôl i'r Rhos mae newydd fynd. Does dim bws arall am awr."

"O, na" medda Bethan "Beth dw i'n mynd i wneud am awr?"

"Mae caffi da i lawr y ffordd" medda Iestyn "Beth am gael paned o goffi a rhoi'n byd yn ei le?"

"Mmm, byddwn i'n hoffi hynny" medda Bethan.

"Iawn" medda Iestyn "Wyt ti eisiau mi gario dy fagiau"

"Gei di gario'r un yma os nad wyt ti'n meindio, mae o braidd yn drwm."

Newydd fynd - just gone

Rhoi'r byd yn ei le - put the world to rights

Braidd yn drwm - rather heavy

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Byw. Bod.

Am fwy o wybodaeth ac
archebu lle:
bywbod@gmail.com



Mapio'r Moelwynion

Diwrnod ar y mynydd
a chyfle i ddysgu sgiliau darllen map
efo Heicio a Beicio Eryri.

30 Gorffennaf 2021
Pris: £30

Byd o Les

Dysgu am lesiant byd natur drwy daith
gerdded efo Catrin, Maeth Natur.

I'w ddilyn gan sesiwn pilates
efo Lauren Hill Pilates

21 Awst 2021 - Llanfrothen
11 Medi 2021 - Ardal Ffestiniog
Pris: £35



Darlun o'r Ardal

Cwrs deuddydd i ddysgwyr Cymraeg

Bore: Sesiwn 'Nabod yr Ardal'

efo Llinos, Gwefus

Pnawn: Sesiwn gelf yn

darlunio'r ardal efo'r artist Sian Elen

14 a 15 Awst 2021 - Penrhyndeudraeth

25 a 26 Medi 2021 - Croesor

Pris penwythnos: £100



Profiad Llawn Gwlân

Gweithdai trin gwlân o'r cnu i'r crefftio
efo Olwen Fferm y Llan, Llanfrothen.

Mae hwn yn gwrw dau fore
(10yb - 12.30) ar y fferm ac yn cynnwys yr holl
ddeunydd fydd angen.

Cysylltwch i drefnu amser.

Pris y deuddydd: £150



Gwefan: www.byw-bod.cymru

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Teledu Lliw (Neu du a gwyn)

gan Rob Evans



Dw i'n siŵr bod rhai ohonoch chi, fel fi, yn cofio'r teledu gwreiddiol. Peth swmpus fawr, plaen ond yn gwneud beth oedd angen. Anghofiwch am sgrin fawr, anghofiwch am rywbeth tenau a gosgeiddig. Sgrin fechan a llun du a gwyn.

Ar ôl blynyddoedd o ddod i arfer a, hyd yn oed gwerthfawrogi, beth oedd gynnwys ni, doth teledu lliw i'n byd ond roedd y set dal i fod yn flocyn enfawr a thrwm.

Dros y blynyddoedd mae'r dechnoleg wedi datblygu o flwyddyn i flwyddyn. Erbyn hyn maen nhw'n denau ac mae sgriniau bach a rhai enfawr i siwtio pob ystafell. Mae cannoedd o sianeli gwahanol ac mae safon y lliw yn arbennig.

Gwyn ein byd ynte!

Ond wrth i'r dechnoleg fynd yn ei flaen mae'r cynhyrchwyr, y bobl sydd yn creu'r dramâu yn mynd y ffordd arall. Yn sydyn mae'n teimlo ein bod ni'n mynd yn ôl i bum degau'r ganrif ddiwethaf. Mae fel bod popeth yn cael eu saethu yn y tywyllwch a does dim byd mewn ffocws. Mae pobl yn cael eu gweld yn eu swyddfeydd yn darllen ffeiliau heb feddwl am roi'r golau ymlaen. Mae heddlu'n torri mewn i dai gwag heb hyd yn oed chwilio am switsh golau.

Yn ddiweddar dw i wedi dechrau meddwl bod rhywbeth yn bod efo fy nheledu ac wedi mynd at y botwm 'menu' a dechrau tincro efo'r

'brightness' a'r 'contrast heb allu gwella pethau o gwbl.

Er roedd y ddrama ddiweddar 'Yr Amgueddfa' ar S4c yn werth ei ddilyn oherwydd y plot roedd wir yn straen ar y llygaid i wyllo. Ac, mae'n debyg dyna sut mae hi bellach efo pob drama.

Rhwng pris y drwydded a chostau ychwanegol Virgin Media neu Sky mi ydan ni'n talu ffortiwn pob mis ac mae rhan fwyaf o'r dramâu fel bod nhw'n cael eu darlledu mewn du a gwyn.


Ac, os dach chi'n cofio doedd dim rhaid cael trwydded i deledu du a gwyn!

Dewch rŵan cynhyrchwyr, beth am gael golau ymlaen ar eich setiau. Mi ydan ni'n haeddu llawer mwy na beth dan ni'n cael oddi wrthoch chi ar hyn o bryd.

Blaenau Ffestiniog

Mae'n werth mynd i Flaenau Ffestiniog! Mae siop llawn llyfrau yna, rhai newydd neu ail law. Llauer o Gymraeg i'w glywed, felly llauer o gyfleoedd i'w siarad. Ardal arbennig o dda i gerdded ynddi hefyd.


SIOP LYFRAU'R HEN BOST
Llyfrau Newydd ac Ail Law / New and Second Hand Books



45 Stryd Fawr
BLAENAU FFESTINIOG
Gwynedd
LL41 3AA

Ffôn/Tel: 01766 831802
Ebost/Email: henbost.blaenau@gmail.com

Ac os dach chi eisiau rywle i aros! Beth am...



**CABAN GWYLIAU
HOLIDAY CABIN**

Hen Gapel
Cwm Teigl
FFESTINIOG
Gwynedd
LL41 4RF

Ffôn/Tel: 01766 762243
Ebost/Email: elin.hengapel@gmail.com

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Y Cynllun Iaith

Fel dach chi i gyd yn gwybod dw i wedi awgrymu cynllun iaith ar gyfer Cymraeg i Oedolion. Bydd y cynllun yn sicrhau bod dysgwyr sydd yn cyrraedd diwedd eu cyrsiau a heb ddod ar draws y drws i'r gymuned yn cadw cysylltiad â'r iaith. Ar ôl fod ar banel Cymdeithas yr Iaith yn ddiweddar, a chael fy atal rhag mynd ymlaen i esbonio'r cynllun, roeddwn i'n gobeithio bydd y rhai sydd yn gyfrifol am y cyrsiau yn barod i roi cefnogaeth lawn iddo ar ôl cael y manylion. Ond llugoer oedd yr ymateb. Yn wir, roeddwn i'n synnu. Mae llawer o ddysgwyr yn diflannu bob blwyddyn - ar goll am fyth i'r iaith. Mae llawer o bobl yn frwdfrydig am ddysgu'r iaith ac mae hynny'n beth da, ond nid yw'r iaith yn elwa tan iddyn nhw gyrraedd ein cymunedau. Ond, ar hyn o bryd, mae fel trio cario dŵr mewn rhidyll! Does dim gobaith cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel hyn.

Er mwyn fy nghadw'n dawel, siŵr o fod, mi wnaeth Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol rhoi'r darn yma ar eu gwefan. Ond, pan maen nhw'n gallu cael y neges at y dysgwyr yn syth trwy'r tiwtoriaid, opsiwn gwael yw hyn. Mae'r iaith yn haeddu gwell.

Mae'n debyg bod llawer o ddysgwyr wedi colli cyfle i wireddu eu breuddwydion i fod yn siaradwyr Cymraeg go iawn eleni. Gobeithio y bydden nhw'n cael cyfle gwell blwyddyn nesaf.

Dyma beth sydd ar y wefan:-



Darganfod y drws i'r Gymuned Gymraeg

Dyma hanes criw o ddysgwyr yn Southgate, Penrhyn Gŵyr sy wedi cael eu derbyn i'r gymuned Gymraeg. Rob Evans o Abertawe sy'n dweud yr hanes wrthon ni.

Felly dywedwch yr hanes o'r dechrau.

Rai blynyddoedd yn ôl, roedd dysgwyr o Southgate, pentref ar Gŵyr, yn poeni bod eu cwrs

dosbarth nos yn dod i ben a'u cyfle i siarad Cymraeg yn dod i ben hefyd.

Do'n nhw ddim yn hapus am hyn. Ro'n nhw wedi bod yn gweithio mor galed ond heb ddarganfod y drws i mewn i'r gymuned Gymraeg. Oedd cymuned Gymraeg yn Southgate hyd yn oed? Ar y wyneb roedd y pentref yn hollol Seisnig.

Penderfynon nhw ddod at ei gilydd i ffurfio grŵp. Roedd perchennog y caffi lleol yn gefnogol i'r Gymraeg, a'i blant yn mynd i'r ysgol Gymraeg leol. Roedd e'n hapus iawn i'r dysgwyr gael cornel o'r caffi ar gyfer cyfarfod.

Yn y caffi, roedd pobl leol yn eu clywed nhw'n siarad Cymraeg ac, er syndod i'r dysgwyr, roedd rhai yn siaradwyr Cymraeg. Roedd y siaradwyr Cymraeg yn dod atyn nhw i siarad, yn Gymraeg wrth gwrs.

Yn fuan iawn, fe gawson nhw wahoddiad i fynd i'r Gymdeithas Gymraeg yn Llandeilo Ferwallt a chael croeso mawr! Ac o hynny ymlaen, maen nhw wedi bod yn aelodau selog.

Mae hyn yn swnio yn syniad gwyach – felly nawr maen nhw wedi dod o hyd i siaradwyr Cymraeg eraill yn yr ardal?

Ydyn. Wrth wneud rhywbeth mor syml â sefydlu grŵp mewn caffi, ro'n nhw wedi dod ar draws y drws i'r gymuned Gymraeg. Ers hynny, nid dysgwyr ydyn nhw ond siaradwyr Cymraeg newydd.

Dych chi yn meddwl basai hyn yn gweithio mewn ardaloedd eraill o Gymru?

Dw i'n meddwl basai'n hawdd iawn efelychu llwyddiant dysgwyr Southgate. Nid dim ond mewn un neu ddau o lefydd ond dros Gymru gyfan.

Mae deg mlynedd gyda ni tan y cyfrifiad nesaf a chyfle i wneud gwahaniaeth mawr. Bydd cyfrifiad 2031 yn dangos ein llwyddiant ac yn neges i bawb bod yr iaith Gymraeg, nid yn unig yn fyw, ond yn fywiog ac yn ffynnu.

Diolch yn fawr Rob am rannu hanes clwb cynnal Southgate gyda ni.

Gweddill Cymru – does dim byd i'w golli....Ewch amdani!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027



Taith Trefdraeth

gan Rob Evans

Mae wedi bod yn braf iawn i gael ailddechrau efo'n teithiau maes unwaith eto ar ôl cyfnod mor hir o orfod hunan ynysu a chadw pellter oddi wrth ein gilydd. Mae'r fath byd yn hollol ddiarth i ni tydi. Mi ydan ni ar y byd yma i gymysgu, mwynhau cwmni ein hunain a bod allan yn yr awyr iach i ymestyn ein coesau. Mae rhywun yn anghofio'r arfer o fynd allan pob dydd Sadwrn i edmygu a dysgu mwy am ein cefn gwlad.

Dw i'n ysgrifennu'r darn yma diwrnod ar ôl i ni gyfarfod ym maes parcio Parrog yn Nhrefdraeth, gogledd sir Benfro. Roedden ni wedi cael dyddiau poeth iawn ac roedd y diwrnod yma i fod yr un peth. Tybed bydd hi'n rhy boeth? Cawn ni weld ond, rhag ofn es i a het fawr a digon i yfed. Aeth ein taith â ni i fyni llethrau Carn Ingli. Roedd hi'n serth ac roedd pawb yn boeth ond wrth fynd yn uwch roedd awel yn codi i'n croesawu ni. Diolch am hynny!

I lawr yn y dre roedd ymwelwyr yn heidio dros y lle, ceir yn trio gwneud eu ffordd tuag at y maes parcio, taith seithug yn y pendraw. I ni yn edrych i lawr o'r uchder roedd y lle yn edrych yn dawel ac yn llonydd, cychod yn hwylio yn y môr glas. Roedd yr holl fyd o danom ni yn glir ac roedd Hedd, ein tywysydd yn gallu adrodd hanes y gwahanol lefydd o'n cwmpas. Mae cael tywysydd galluog yn rhoi ychwanegiad mawr i'r pleser sydd ar gael ar ein teithiau. Roedd hanes am beth

oedd o flaen ein llygaid ac, yn ogystal â hynny, chwedlau yn gysylltiedig â'r tirlun. Ac mi oedd y tirlun yn hardd, dim byd hyll i'w weld yn unman.

Erbyn tri o'r gloch roedden ni yn ôl wrth ein ceir, y drysau i gyd ar agor er mwyn cael gwared â'r gwres ac yn barod am ein siwrne adref.

Diwrnod pleserus dros ben. Diolch yn fawr i Hedd Lad Lewis am y wybodaeth werthfawr, mor hyfryd oedd clywed tafodiaith gogledd sir Benfro!

Gyda llaw mae llawer o ddysgwyr wedi ymuno a'r Gymdeithas yn ddiweddar a dw i'n falch o ddweud bod nhw wedi cael croeso mawr. I chi sydd yn dysgu, cofiwchmae bod mewn cwmni Cymry Cymraeg yn gwneud byd o les i'ch hyder a byddech yn gweld a dysgu am rannau o Gymru na fydddech wedi gweld o'r blaen. Dyma un ffordd werthfawr o gael eich hun i mewn i'r gymuned. Felly peidiwch â bod yn swil - yn wir does dim rhaid! Mae rhaglen ein teithiau ar gael ar <https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/> a chliciwch ar 'Gweithgareddau'

Edrych ymlaen at eich gweld chi!

Dic Shonnelly


Yn yr erthygl 'Stori o'r Ardd' gan Susan Gilson mae hi'n defnyddio'r gair 'euog', guilty. Dyma un o'r geiriau yn yr iaith Gymraeg mae'n rhaid defnyddio'n ofalus. Gair sydd yn swinio'r un fath a gair arall. Pan dach chi'n ei ddefnyddio wrth

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

siarad does dim problem achos mae'r cyd-destun yn dweud wrthoch chi beth yw'r ystyr . Ond pan dach chi'n ysgrifennu - wel dyna pryd mae'r hwyl yn dechrau. Y gair tebyg yw 'eog', salmon.

Felly peidiwch â dweud mae'r pysgodyn yn euog.

A pheidiwch â dweud bod y lleidr yn eog!



Ar Draws

- | | |
|--------------------|--------------------------|
| 1) Ystafell orfwys | 1) Ffawd |
| 2) Anifail anwes | 2) Rhwystro |
| 5) Deddf | 3) Diawl |
| 7) Seddau | 4) Testunau |
| 8) Cathlu | 6) A, B, C neu D...(e.e) |
| 10) Plisgennau | 7) Llythyrnod |
| 12) Coed bythwyrdd | 9) Mul |
| 13) Cartrefi adar | 11) Granfwyd brecwast |

Geirfa

Cwm Elan

Heidio - to swarm
Go brin - scarcely
Heddychlon - peaceful
Sir Gaerwrangon - Worcestershire
Nefolaidd - heavenly
Cadwyn - a chain, a series
Cronfa - reservoir
Argae - dam
Cyfan gwbl - totally
Syfaeni - foundations
Barcud Coch - red kite
Yn troi'n osgeiddig - turning gracefully

Byrlymog - bubbling
Olion - remains
Gwaith plwm - lead works

Stori o'r ardd

O gornel fy llygaid - in the corner of my eye
Crwyn llyfn, llwyd - smooth grey skin
Llygoden fawr - a rat
Cwningen - a rabbit
Arogli - to smell
Ymsefydlu - to settle
Clogwyn - cliff
Ymddangos - to appear
Euog - guilty

Y Daith Gyntaf

Rhyddhad - relief
Neidio trwy cylch - jumping through hoops
Caniatau - to allow
Lawr lwytho - to download
Atodi - to append
Hediad - flight
Cyhyd â - as long as
Rhyfeddu - to (gaze in) wonder
Annisgwyl - unexpected
Gwifrau - wires
Crwban y môr - turtle
Tawelwch meddwl - peace of mind
Caniatau - to allow
Cam pwysig - important step

Trechu Canser

Y brostad - the prostate
Mynd i'r afael â - to tackle
Pelydriad - radiation
Bio-atborth - bio-feedback
Dogn - dose Delweddu - visualise
Crebachu - shrivel
Moesol - moral
Cadarnhaol - positive

Cymry Awstralia

Gwneud argraff - to make an impression
Gadael eu hôl - to leave their mark
O'u gwirfodd - voluntarily

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Alltudio - to be exiled

Arwyddocaol - significant

Wrthdystiad - a protest

Gwladfa – colony

Cyfansoddiad – constitution

Prif Ustus – Chief Justice

Ill dau – both

Ymfudo – to emigrate

Siop adrannol – department store

Sector adwerthol – retail sector

Trefedigaethol - colonial

Treftadaeth – heritage

Ar Draws

1) Lolfa

3) Cath

5) Cyfraith

7) Seti

8) Canu

10) Masglau

12) Pîn

13) Nythod

I Lawr

1) Lwc

2) Atal

3) Cythraul

4) Themau

6) Fitamin

7) Stamp

9) Asyn

11) Uwd

Teledu Lliw

Gwreiddiol - original

Swmpus - bulky

Gosgeiddig - graceful

Gwyn ein byd - what a wonderful world

Cynhyrchwr - producer

Tincro - to tinker

Trwydded - licence

Costau ychwanegol - additional costs

Dewch rŵan - come on now

Cynllun iaith

Llugoer - lukewarm

Rhidyll - colander

Gwireddu - to fulfill

Breuddwydion - dreams

Taith Trefdraeth

Ymestyn - to stretch

Edmygu - to admire

Trefdraeth - Newport (Pembs)

Llethrau - slopes

Awel - breeze

Heidio - to swarm

Taith seithig - frustrated journey

Tywysydd - leader

Ychwanegiad - additional contribution

Tirlun - landscape

Tafodiaith - local dialect